# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Tonnau Bach**

**Ysgol Hafan y Môr**
**Lôn Heywood**
**Dinbych Y Pysgod**
**SA70 8BN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**2 Ionawr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Tonnau Bach yn darparu gofal dydd llawn i hyd at 19 o blant rhwng dwy a thair oed. Mae'r sesiynau'n rhedeg yn ystod y tymor yn unig, rhwng 9:00am a 3:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mrs Sioned King yw'r unigolyn cyfrifol ar ran y sefydliad cofrestredig, 'Cylch Meithrin Tonnau Bach'. Angharad Davies ac Emma Rossiter yw'r personau â chyfrifoldeb, ac mae Angharad ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yng Nghylch Meithrin Tonnau Bach yn hapus ac yn setlo'n dda. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu. Mae cydberthynas gynnes a gofalgar rhwng y plant a'r staff, sy'n cynnig profiadau dysgu iddynt. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

### 2. Gwelliannau

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod pob tystysgrif DBS gwreiddiol wedi'u tynnu o ffeiliau'r staff. Mae'r arweinwyr wedi cadarnhau bod rhagor o adnoddau ar gael i'r plant, megis paentio rhydd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â hylendid, sgiliau annibynnol y plant, a chyfleoedd i wneud dewisiadau. Mae'r manylion wedi'u rhestru yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus unwaith y byddant wedi setlo, a chânt gyfleoedd i wneud rhai dewisiadau ynghylch eu chwarae. Maent yn profi amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Mae'r plant yn profi cydberthnasau cynnes a gofalgar. Maent yn dysgu i ryngweithio a chydweithio â'i gilydd a'r staff.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gall y plant fynegi eu barn a'u hanghenion, ac mae'r staff yn gwrando arnynt.

Roedd gan y plant lais ac roedd staff y gwasanaeth yn gwrando arnynt. Gwnaethant symud o un ardal chwarae i'r llall yn hyderus, a mynegi eu barn yn dda. Roedd un plentyn yn gwthio edau drwy riliau gydag aelod o'r staff a dywedodd, "*I don't want to do it anymore",* a symudodd ymlaen at weithgaredd arall. Yn ystod amser byrbryd, roedd y plant yn gallu dewis o blât o ffrwythau a oedd wedi cael eu paratoi iddynt. Gofynnodd rhai o'r plant am fwy o dost, a chawsant beth. Cynigwyd mwy i blant eraill, a derbyniodd rhai a gwrthododd eraill. Clywsom aelod o'r staff yn gofyn i blentyn, "*would you like to come and do craft?",* ac atebodd "*no, I don't want to*", ac aeth i chwarae. Pan ddaeth y plant hŷn i mewn i'r ystafell ar ôl cinio, dywedodd y staff wrthynt ba weithgaredd i gymryd rhan ynddo, ac i ba ardal y dylent fynd.

Gall y plant fod yn hyderus y caiff eu llais ei glywed, y rhan fwyaf o'r amser.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae ganddynt gydberthynas glos â'r staff, sy'n eu hadnabod nhw i gyd yn dda.

Pan wnaethom gyrraedd, gwelsom fod y plant wedi setlo a'u bod yn hapus yn eu chwarae. Gwnaeth rhai o'r plant fynd at aelodau o'r staff am gwtsh wrth chwarae. Gwelsom blentyn yn dal yn llaw aelod o'r staff i'w thywys i'r bwrdd lle roedd wedi creu deilen liwgar. Roedd y plant yn hapus gyda'n presenoldeb, ac yn ein cynnwys yn eu chwarae. Gwelsom fod y plant a oedd ond wedi bod yn mynychu am gyfnod byr yn hapus ac yn chwerthin yn eu chwarae. Gwelsom y plant yn ymateb drwy wenu, ac roedd golwgbalch ar eu hwynebau pan gawsant eu canmol am wneud gwaith da neu am helpu i dacluso.

Mae cydberthnasau agos rhwng y staff a'r plant, ac maent yn ymlacio yn eu chwarae.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i ymddwyn yn garedig tuag at ei gilydd ac i gymryd tro. Maent yn dysgu i ddeall teimladau ei gilydd a sut i helpu eu ffrindiau.

Gwelsom y plant yn gyffro i gyd wrth redeg gyda'i gilydd o amgylch yr ystafell. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r plant ymateb pan ddywedodd y staff ei bod hi'n amser clirio'r gweithgareddau a'u tacluso. Roedd angen atgoffa rhai o'r plant i ymddwyn yn garedig tuag at ei gilydd, a gwnaeth blentyn wthio plentyn arall i ffwrdd yn y pwll tywod. Safodd y plant mewn rhes ac aros eu tro i olchi a sychu eu dwylo. Yn ystod trafodaeth yn ystod amser byrbryd, pan ddywedodd aelod o'r staff ei bod yn hoffi ciwcymbr, gwnaeth un o'r plant basio'r plât ati, a gofynnodd, “*Would you like one*?”, ond gwrthododd yn gwrtais. Gwenodd y plentyn wrth iddo gael ei ganmol am fod mor garedig. Pan nad oedd plentyn arall yn gallu cyrraedd y plât o ffrwythau ar draws y bwrdd, gwnaeth plentyn arall wthio'r plât tuag ati'n ofalus, a dywedodd, “*There you go*”.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn hyderus, ac maent yn ystyried teimladau'r plant eraill.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn llawn diddordeb ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Maent yn rhydd i symud yn ddiogel rhwng gweithgareddau.

Roedd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl. Er enghraifft, roedd grŵp o blant yn esgus bod yn aelod o'r staff a'r staff yn esgus bod yn blant. Gwnaethant roi cyfarwyddiadau iddynt, megis “*cross your legs now”* , a galw enwau i er mwyn gwneud y gofrestr. Roedd y plant yn chwerthin ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn ystod amser canu; gan neidio lan a lawr fel mwncïod. Roedd grŵp o blant yn chwarae gyda'r toes chwarae yn yr hambwrdd am gyfnod o amser, ac yn creu anifeiliaid ac eitemau bwyd o wahanol siapiau.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus, wedi'u cymell ac yn datblygu eu sgiliau annibynnol.

Gwelsom fod y plant yn annibynnol wrth olchi a sychu eu dwylo cyn cael byrbryd ac ar ôl defnyddio'r toiled. Roedd sinciau, sebon a thywelion papur ar gael iddynt ar eu lefel nhw. Clywsom y plant yn enwi lliwiau deinosoriaid ac yn eu dosbarthu yn ôl lliwiau penodol ar hambyrddau. Gwelsom y plant yn defnyddio'r glud i ludo papur sidan lliw i greu patrwm deilen. Yn ystod amser byrbryd, gwnaeth y plant helpu eu hunain i'w diodydd, yr oedd y staff eisoes wedi'u paratoi. Ar ôl cael byrbryd, gwnaethant roi unrhyw fwyd dros ben yn y bin compost, a'u platiau a'u cwpanau mewn powlen golchi llestri. Bwytaodd y plant eu cinio'n annibynnol.

Mae'r plant yn dysgu, yn datblygu ac yn dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda ac yn darparu gofal sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel, ac yn rheoli rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn gyson. Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae'r plant, gan sicrhau bod amrywiaeth dda o weithgareddau ar gael iddynt.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y staff ffeil gynhwysfawr sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau, i gyd wedi'u diweddaru'n ddiweddar. Mae'r gwasanaeth yn hybu ffyrdd iach o fyw a gweithgareddau corfforol bob dydd.

Clywsom y staff yn atgoffa'r plant am bwysigrwydd golchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac ar ôl iddynt ddefnyddio'r toiled. Rhoddwyd tywelion papur i'r plant nad oeddent yn hoffi'r sychwr dwylo, er mwyn iddynt sychu eu dwylo. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn sicrhau chwarae awyr agored bob dydd, a gwelsom y plant yn chwarae yn yr awyr agored yn ystod yr arolygiad. Roedd y staff yn glanhau'r byrddau â glanweithydd cyn ac ar ôl yr amser byrbryd. Gwelsom y staff yn gwisgo ffedog a menig wrth newid cewynnau'r plant. Fodd bynnag, ni chafodd y mat ei ddiheintio rhwng pob plentyn. Gwnaethom drafod gweithdrefnau amddiffyn plant gyda'r staff a oedd yn hyderus o ran yr hyn i'w wneud pe bai ganddynt bryderon. Roedd damweiniau a digwyddiadau wedi cael eu cofnodi'n gywir a'u llofnodi gan y staff a'r rhieni. Clywsom y staff yn rhoi negeseuon diogelwch i blentyn â dinosor yn ei cheg, gan sicrhau y cafodd ei dynnu o'i cheg yn syth. Gwelsom fod dŵr ar gael drwy'r dydd, ac roedd rhai o'r plant wedi dod â'u biceri eu hunain.

Mae'r staff yn effeithiol wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio bob amser. Maent yn annog y plant i gymryd eu tro, rhannu â'i gilydd a chanmol yn gadarnhaol. Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol a chyson.

Roedd y staff yn canmol y plant yn aml yn ystod eu chwarae, er enghraifft; "well done you, that's a great job," ac "oh you're such a good boy for helping me, thank you". Clywsom y staff yn atgoffa'r plant i ddweud 'diolch' pan rhoddwyd eu ffrwythau iddynt. Roedd y staff yn aros yn gadarnhaol ac yn dawel, gan ddweud, er enghraifft "*no I don't think that's kind, do you*?" pan roedd y plant yn gwthio heibio i blant eraill er mwyn cymryd rhan mewn gweithgaredd, ac roeddent yn plygu lawr i lefel llygaid y plant. Gwnaeth y staff anwybyddu ymddygiad negyddol a chanmol ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, pan wnaeth blentyn basio'r plât o ffrwythau i blentyn arall, gwnaeth y staff ei ganmol am fod yn garedig ac am helpu.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn gyson.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Roedd y staff yn gwybod ac yn deall anghenion y plant ac yn cynllunio'r cyfleoedd chwarae a dysgu yn briodol. Maent yn sicrhau bod gan y gweithgareddau ddiben o ran eu dysgu.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda a gwnaethant ddweud wrthym am eu hoffterau a'u dewisiadau. Roedd pob aelod o'r staff yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd a'r plant. Roeddent yn ymwybodol o anghenion, galluoedd a dewisiadau'r plant, ac roedd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio wrth gynllunio. Gwnaed hyn yn wythnosol, ac roedd cyfleoedd i'r staff gyfrannu. Roedd yr arweinwyr yn cwblhau proffiliau datblygu, llyfr lloffion personol y plant, gan gynnwys gwaith y plant a thystiolaeth ffotograffig. Gwelsom fod y staff wedi creu ardaloedd tawel gyda chlustogau mawr i blant a oedd eisiau seibiant neu'n teimlo'n sâl.

Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ystafell mewn ysgol. Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i chwarae mewn ardal ddiogel gydag amrywiaeth dda o gyfleoedd ac adnoddau. Mae'r amgylchedd dan do wedi'i osod i fodloni meysydd dysgu, ac mae'r ardal awyr agored yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau echddygol bras.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u dileu gymaint â phosibl.

Roedd yn rhaid i aelod o staff yr ysgol adael unrhyw ymwelwyr i mewn i'r adeilad cyn eu tywys i'r gwasanaeth. Gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd, a gwelsom fod pob ymwelydd yn ei ddefnyddio. Roedd asesiadau risg yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u diwygio pan fo angen ar gyfer ardaloedd dan do ac awyr agored. Gwelsom y staff yn cwblhau gwiriadau gweledol yn yr ardal awyr agored ac yn sychu'r cyfarpar pan roedd y plant yn chwarae. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru â'r asiantaeth safonau bwyd. Roedd ymarferion tân yn cael eu cwblhau a'u cofnodi bob mis. Roedd pob darn o gyfarpar trydanol wedi cael prawf Pat ym mis Mawrth 2018. Gwelsom hefyd dystysgrif gwiriad diogelwch y system wresogi, a oedd wedi cael ei gynnal ym mis Mai 2018.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn effeithiol.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r brif ystafell lle mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn groesawgar ac yn agored, gydag arddangosfeydd lliwgar ar y waliau. Mae'r ystafell wedi'i chynnal i safon dda. Mae ardal awyr agored wrth ochr yr adeilad.

Roedd yr ystafell yn cynnig rhai cyfleoedd chwarae, lleoedd i fwyta ac ardaloedd ar gyfer amser tawel a oedd yn addas i'r plant. Roedd yr arweinwyr wedi trefnu byrddau a chadeiriau i ddarparu ardal gymdeithasol ar gyfer amseroedd bwyd ac ardaloedd gyda chlustogau lle y gallai'r plant dreulio adegau tawel. Roedd ardal awyr agored fach wrth ochr yr adeilad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a theganau, sy'n lân ac o ansawdd da. Maent yn briodol ar gyfer oedran y plant ac mae'n hawdd i'r plant gael gafael arnynt.

Roedd amrywiaeth o adnoddau a theganau o ansawdd da ar gael i'r plant a oedd yn addas at y diben. Roedd enghreifftiau o'r adnoddau a oedd ar gael yn cynnwys ceir, set trenau, blociau, dillad gwisgo i fyny, offerynnau cerdd, cyfarpar crefft, numicon, tŷ bach twt, anifeiliaid fferm a sw, teganau meddal a chlustogau llawr. Roedd y plant yn gallu defnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol, yr oeddent yn ei ddefnyddio i dynnu lluniau ac roedd modd iddynt argraffu eu gwaith. Roedd yr arweinwyr wedi darparu dodrefn o faint sy'n addas i blant er mwyn galluogi'r plant i eistedd wrth fyrddau'n annibynnol a chael gafael ar deganau a chyfarpar.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith, ac mae gan yr arweinwyr gynlluniau wrth gefn ar waith i gyflenwi absenoldebau staff. Mae'r staff yn teimlo'n eu bod wedi eu cefnogi'n llawn ac maent yn hapus yn eu rolau. Mae systemau ar waith ar gyfer adolygu'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith, sy'n cael eu rhannu â phob aelod o'r staff a'r rhieni.

Gwelsom ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru, a oedd yn darparu darlun cywir o'r gwasanaeth a gynigir. Roedd pob polisi wedi'i adolygu'n ddiweddar i gynnwys manylion newydd AGC. Dywedodd y staff wrthym fod yr arweinydd yn eu cefnogi'n dda iawn, a bod ethos gwaith da ymysg y tîm. Gwelsom sampl o ffeiliau'r plant, a'u bod yn cynnwys y wybodaeth gywir. Roedd cofnodion damweiniau wedi'u cwblhau a'u llofnodi gan y staff a'r rhieni.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol ac yn cydweithio fel tîm.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr wedi dechrau casglu adborth ar gyfer yr adolygiad cyntaf o ansawdd y gwasanaeth.

Roedd yr arweinwyr wedi dechrau casglu adborth am y gwasanaeth gan y rhieni, ac wedi gofyn a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwneud gwelliannau. Dywedodd yr arweinwyr wrthym y byddant yn ceisio adborth gan y plant ac asiantaethau eraill â chysylltiadau â'r gwasanaeth pan fyddannt wedi bod yn rhedeg am ddeuddeg mis.

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i sicrhau y bydd yr adolygiad o ansawdd y gofal yn effeithiol ac yn cael ei ddefnyddio wrth gynllunio ar gyfer gwella.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o staff yn y gwasanaeth, a bod gan bob aelod o'r staff y cymwysterau cydnabyddedig.

Gwelsom ffeiliau'r staff a oedd yn cynnwys yr holl ddogfennaeth gywir ofynnol. Roedd ffeil un aelod o'r staff yn cynnwys tystysgrif DBS wreiddiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau, a gwelsom gofnodion o'r rhain yn eu ffeiliau

unigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau ac yn falch o fod yn rhan o'r gwasanaeth. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr arweinwyr.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn cefnogi eu staff.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr gydberthnasau da â'r rhieni / gofalwr a'r ysgol leol.

Cawsom holiaduron wedi'u cwblhau gan y rhieni, a ddywedodd wrthym ba mor werthfawr roedd y gwasanaeth iddynt. Roeddent yn teimlo bod eu plant yn profi ystod eang o weithgareddau, bod y staff yn gyfeillgar a chroesawgar, a bod eu plant yn cael y gofal gorau posibl. Roedd cysylltiadau agos rhwng y gwasanaeth â'r ysgol, a oedd hefyd yn cefnogi'r gwasanaeth, ac ar adeg y Nadolig, cafodd y plant eu gwahodd i wylio'r sioe Nadolig. Roedd y plant yn cael eu gwahodd i mewn i'r ysgol ar gyfer ymweliadau pontio, cyn iddynt ddechrau yno. Mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan mewn diwrnodau codi arian lle maent yn gwisgo i fyny, megis Diwrnod y Llyfr. Dywedodd yr arweinwyr bod digwyddiadau wedi'u trefnu i godi arian ar gyfer y gwasanaeth.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r ysgol yn effeithiol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dyma oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell fod yr arweinwyr yn gwneud y canlynol;

- Sicrhau bod mwy o gyfleoedd a gweithgareddau ar gael i'r plant, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a dewisiadau;
- sicrhau bod y mat newid cewynnau yn cael ei ddiheintio rhwng pob defnydd, a
- datblygu annibyniaeth plant yn ystod amser byrbryd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd arolygydd un ymweliad â'r gwasanaeth ar 9 Tachwedd 2018, a wnaeth bara am bedair awr. Gwnaethom roi adborth dros y ffôn ar 15 Tachwedd 2018, am bedwar deg pum munud.

- Gwelsom sampl o ddogfennaeth yn cynnwys polisïau, ffeiliau'r staff a'r plant, asesiadau risg, cofnodion damweiniau, cofnodion ymarferion tân a chofrestri;
- gwnaethom arsylwi ar arfer rhwng y staff a'r plant;
- gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb, y person cofrestredig a'r staff;
- gwnaethom siarad â'r rhieni a chawsom bedwar holiadur wedi'u cwblhau gan y rhieni, a
- gwnaethom archwilio'r amgylchedd y tu mewn a'r tu allan.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Sioned King** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Emma Rossiter**<br>**Angharad Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-3 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9.00am a 12.00pm, a rhwng 1.00pm a 3.00pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Dyma oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth.** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **09 Tachwedd 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |